



Cyngor Cymuned Llanrhystud *Community Council*

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 05 Chwefror 2025 yn Neuadd Goffa Llanrhystud

Minutes of the meeting held 05 February 2025 at Llanrhystud Memorial Hall

1. Presennol / *Present:*

Glyn DAVIES (GD), Gareth FLYNN (GF), John EVANS (JE, cyrhaeddwyd yn hwyrach / *arrived later*), Charles GREEN (Cadeirydd / *Chair*), Gwyn JONES (GJ), Morris JONES (MJ), Donald MORGAN (DM), Iestyn TUDUR-JONES (ITJ).
Eifion ROBINSON (Clerc / *Clerk*).
Heledd DAVIES (Cyfieithydd / *Translator*)

2. Ymddiheuriadau / *Apologies:*

Cyng. Gwyn W. EVANS (GE), Sharon RICHARDS (SR).

3. Datgan diddordeb / *Declaration of interest:*

Dim datganiad / *No declarations.*

4. Cofnodion / *Minutes:*

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhelir ar 08 Ionawr 2025.
The minutes of the meeting held on 08 January 2025 were approved.

❖ Pete Hughes (Nyth / *Nest*).

Cyflwyniad byr: Cynllun Cartrefi Clyd Nyth Llywodraeth Cymru.
Short presentation: Welsh Government Warm Homes Nest Scheme.

5. Materion Agored a Gweithredoedd yn Dilyn y Cyfarfod Blaenorol / *Open Matters and Actions from the Previous Meeting:*

#	Disgrifiad / <i>Description</i>	Diweddariad / <i>Update</i>	Gweithred / <i>Action</i>
01	Asesu cyflwr coed o amgylch Cae Ceredig. <i>Assessing the condition of trees surrounding Cae Ceredig.</i>	Cadeirydd: cynhaliwyd cyfarfod gyda chynrychiolydd cwmni sydd â diddordeb mewn tendro am y gwaith o gynnal a chadw coed Cae Ceredig. Nid yw'r Clerc wedi derbyn dyfynbris eto. Penderfynodd y Cyngor aros am ddyfynbris gan yr ail gwmni cyn gwneud penderfyniad. <i>Chair: meeting was held with representative of company interested in tendering for the job of maintaining the trees within Cae Ceredig. Clerk has not yet received a quotation. Council decided to wait for quotation from second company before making a decision.</i>	Diweddariad. <i>Update.</i>

#	Disgrifiad / <i>Description</i>	Diweddariad / <i>Update</i>	Gweithred / <i>Action</i>
02	Maes y Pentref. <i>Village Green.</i>	GD: ar ôl siarad â swyddog CSC credir bod angen mwy o dystiolaeth ysgrifenedig ar ddefnydd y tir. ITJ: gallai ddod o hyd i dystiolaeth mewn cyfnodolion wedi'u harchifo, megis Y Ddolen neu Cambrian News, yn y Llyfrgell Genedlaethol. <i>GD: having spoken with a CCC officer it is believed more written testimony as evidence of land use is required.</i> <i>ITJ: could find evidence in archived journals, such as Y Ddolen or Cambrian News, in the National Library.</i>	Clerc: i edrych am fwy o dystiolaeth o ddefnydd y tir. <i>Clerk: to look for more evidence of land use.</i>
03	Goleuadau coeden Nadolig y pentref. <i>Village Christmas tree lights.</i>	Nid oedd JE yn bresennol ar yr amser a godwyd yr eitem yma – gweler eitem 11.01. <i>JE was not present at the time this item was reached – refer to item 11.01.</i>	Dim gweithred pellach. <i>No further action.</i>
04	Gwirfoddolwyr / <i>Volunteers.</i>	Clerc: polisi gwirfoddolwyr heb ei gwblhau eto. GD: wedi siarad â swyddog CSC ynglŷn â gwirfoddolwyr yn cymryd drosodd swyddi a wnaed gan CSC yn flaenorol (e.e. tynnu chwyn ar ochrau'r ffyrdd ar ystadau preswyl) a dywedwyd wrtho y gallent helpu gydag adnoddau gweinyddol. <i>Clerk: volunteer policy not yet completed.</i> <i>GD: has spoken with CCC officer regarding volunteers taking over jobs previously carried out by CCC (e.g. de-weeding the roadsides on residential estates) and was told they may be able to help with administrative resources.</i>	Clerc: i gwblhau'r polisi gwirfoddoli a'i rannu gyda chynghorwyr i'w adolygu. Clerc: i gysylltu â'r swyddog CSC perthnasol ynglŷn â gwaith gwirfoddol arfaethedig. <i>Clerk: to complete the volunteer policy and share with councillors for review.</i> <i>Clerk: to contact the relevant CCC officer regarding volunteer work proposed.</i>
05	Cyfrifon banc / <i>Bank accounts.</i>	Clerc: wedi llwyddo i gael cerdyn debyd ar gyfer cyfrif y cyngor ond heb gael gwybodaeth am gyfrifon cynilo eraill eto. GD: yn awgrymu sicrhau bod gan gerdyn debyd y gallu i ofyn am ail gymeradwywr ar gyfer gwariant. <i>Clerk: has managed to obtain a debit card for the council account but not yet obtained information on alternative savings accounts.</i>	Clerc: i holi gyda'r banc ynghylch ail gymeradwywr taliadau Cerdyn Debyd ac opsiynau ynglŷn a chyfrifon cynilo. <i>Clerk: to enquire with bank regarding second approvers of Debit Card payments and options regarding savings accounts.</i>

#	Disgrifiad / <i>Description</i>	Diweddariad / <i>Update</i>	Gweithred / <i>Action</i>
		<i>GD: suggests ensuring debit card has ability to require a second approver for expenditures.</i>	
06	TAW / <i>VAT</i> .	Clerc: wedi dod o hyd i'r rhif cofrestru TAW a bydd yn cyflwyno cais adennill TAW. <i>Clerk: has found the VAT registration number and will submit a VAT reclaim application.</i>	Clerc: i gyflwyno cais adennill TAW. <i>Clerk: to submit VAT reclaim application.</i>
07	CG: dŵr y rhedeg dros yr heol ar waelod Rhiwbwys. <i>CG: water is running across the road at the bottom of Rhiwbwys.</i>	Clerc: wedi hysbysu CSC trwy CLIC, sydd wedi ymchwilio i'r mater. <i>Clerk: has informed that CCC via CLIC, who have investigated the issue.</i>	Dim gweithred pellach. <i>No further action.</i>
08	11/02/25, 6pm-7:30pm. Dyddiad i'r dyddiadur- Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad / <i>Date for the diary - Code of Conduct Training.</i>	Clerc: nid oes dolen i gyfarfod Zoom, ar gyfer yr hyfforddiant, wedi'i anfon eto. <i>Clerk: no link to the Zoom meeting, for the training, has yet been sent.</i>	Clerc: i rannu'r dolen pan fydd ar gael. <i>Clerk: to share link when it is available.</i>

6. Cynllunio / *Planning*

#	Disgrifiad / <i>Description</i>	Penderfyniad / <i>Decision</i>
Dim ceisiadau cynllunio / <i>No planning applications.</i>		

7. Gohebiaeth / *Correspondence*

#	Disgrifiad / <i>Description</i>	Penderfyniad / <i>Decision</i>
01	19/01/25 - Ieuan Wyn (Ysgrifennydd, Cylch yr Iaith / <i>Secretary, Cylch yr Iaith</i>). Argymhellion y Comisiwn Cymunedau Cymraeg. <i>The recommendations of the Welsh Communities Commission.</i>	Pleidlais: ar gynnig i anfon llythyr yn cefnogi'r argymhellion – 7 O blaid, 0 Yn erbyn. Clerc: i anfon y llythyr. <i>Vote: on proposal to send letter backing the recommendations – 7 For, 0 Against.</i> <i>Clerk: to send the letter.</i>
02	27/01/25 - Glynis Davies (CSC / <i>CCC</i>). Cadarnhau trefniadau talu am is-etholiad Llanrhystud (Haminiog) - 8 Chwefror 2024. <i>Confirmation of payment arrangements for the Llanrhystud (Haminiog) by-election – 8 February 2024.</i>	Cyngor: mae yna cwestiynau dros gostau gweithwyr (£2719.29) ar ddiwrnod yr etholiad – GE i ofyn a chadarnhau bod y costau yn gywir. <i>Council: there are questions over the staffing costs (£2719.29) on the day of election – GE to enquire and confirm that costs are correct.</i>
03	31/01/25 – Cyswllt trwy'r wefan / <i>Contact via the website.</i> Safle Bws Black Lion. <i>Black Lion Bus Stop.</i>	Clerc: i gysylltu gyda TrawsCymru ynglŷn â'r problem. <i>Clerk: to contact TrawsCymru regarding the problem.</i>

#	Disgrifiad / <i>Description</i>	Penderfyniad / <i>Decision</i>
04	<p>31/01/25 – K.Lewis (CPD Llanrhystud / <i>Llanrhystud FC</i>).</p> <p>Anfoneb 1 – Tymor 24/25 & diwedd cytundeb.</p> <p><i>Invoice 1 – Season 24/25 & end of agreement.</i></p>	<p>Cyngor: o ystyried y penderfyniad i ddod â'r cytundeb i ben, sy'n awgrymu diwedd CPD Llanrhystud, gofynnau'r cyngor i'r anfoneb am waith fod yn enw D.Moore yn hytrach na CPD Llanrhystud.</p> <p>Clerc: i holi D.Moore am ddisgrifiad o'r gwaith a wnaed; hefyd am allwedd y sied a'r cynnwys oddi mewn.</p> <p>Clerc: i gysylltu ag E.Jones (yn CSC) am gyngor ar dendro gwaith o'r fath (cynnal a chadw'r cae chwarae).</p> <p><i>Council: given the decision to end the agreement, implying the end of Llanrhystud FC, the council request that the invoice for work be in D.Moore's name, rather than Llanrhystud FC.</i></p> <p><i>Clerk: to enquire with D.Moore about a description of work carried out; also about the key for the shed and the contents within.</i></p> <p><i>Clerk: to contact E.Jones (at CCC) for advice on tendering out such work (maintenance of playing field).</i></p>
Er gwybodaeth yn unig / <i>For information only</i>		
05	<p>30/01/25 - Siwan Jones (CSC / <i>CCC</i>)</p> <p>Ymgynghoriad ar Ganllawiau Cynllunio Atodol Drafft.</p> <p><i>Consultation on Draft Supplementary Planning Guidance.</i></p>	<p>Nodwyd. Dim gweithred pellach.</p> <p><i>Noted. No further action.</i></p>

Ymunodd JE â'r cyfarfod / *JE joined the meeting.*

8. Apeliadau / *Appeals*

#	Disgrifiad / <i>Description</i>	Penderfyniad / <i>Decision</i>
Caiff penderfyniadau ar bob un apêl eu gwneud yn ystod cyfarfod mis Mawrth / <i>Decisions on every appeal will be made during the March meeting.</i>		

9. Cyfrifon / *Accounts*

I. Balansau banc am y cyfnod 25.01.2025 / *Bank balances for the period 25.01.2025:*

Cyf. Cyfredol / <i>Current Acc.</i>	40-08-09; 70649244	£ 8,791.66
Cyf. Cynilo / <i>Savings Acc.</i>	40-08-09; 81355120	£ 8,870.65
Cyfanswm cyfredol / <i>Current total</i>		£ 17,662.31

II. Taliadau i'w cymeradwyo / *Payments to approve:*

1	Mrs. H. Davies (Cyfieithu – Ionawr / <i>Translation - January</i>)	£76.50
2	RMJ Tree Services	£300.00
3	E.Robinson (Cyflog Ionawr / <i>Salary January</i>)	£241.20
4	Evans & Co (gweler eitem 5.03 / <i>refer to item 5.03</i>)	£51.99
5	Mr G Harries (gweler eitem 11.02 / <i>refer to item 11.02</i>)	£187.56

III. Ni chymeradwywyd adroddiad cyfrifon chwarterol – camgymeriad yn yr agenda oedd yr eitem yma / *Quarterly statement of accounts were not approved – this item was a mistake in the agenda.*

10. Materion a godwyd gan y gymuned / *Matters raised by the community.*

#	Disgrifiad / <i>Description</i>	Penderfyniad / <i>Decision</i>
01	31/01/25 – Charles Green <i>Cŵn yn baeddu o gwmpas y pentref a Chae Ceredig / Dog fouling around the village and playfield Cae Ceredig.</i>	Cyngor: mae'n anodd iawn ei blismona – mae'r gallu i weithredu yn gofyn am dystiolaeth ffotograffig/fideo o gyflawnwyr. <i>Council: it is very difficult to police – the ability to take action requires photographic/video evidence of perpetrators.</i>

11. Unrhyw fusnes arall (UFA) / *Any other business (AOB)*


#	Disgrifiad / <i>Description</i>	Penderfyniad / <i>Decision</i>
01	Cyflwynodd JE derbynneb fel tystiolaeth o brynu goleuadau, ar gyfer ad-daliad o £51.99. <i>JE provided receipt as evidence of purchase of lights, for reimbursement of £51.99.</i>	Cymeradwywyd yr ad-daliad yn ystod cyfarfod mis Rhagfyr (eitem 10.01). <i>Repayment was approved during December meeting (item 10.01).</i>
02	Cyflwynodd JE anfoneb gan Mr G Harries ar gyfer cost defnyddiau a gwaith ail-adeiladu'r hysbyswrdd. Mae rhagor o waith i'w wneud i ail-osod y drysau ar yr hysbyswrdd. <i>JE presented an invoice from Mr G Harries for the cost of materials and work done to rebuild the noticeboard. There is more work to be done to reinstall the noticeboard doors.</i>	Cyngor: cytunwyd i dalu'r anfoneb. <i>Council: agreed to pay the invoice.</i>
03	DM: mae preswlydd yn parhau i fwydo'r cathod ger Tŷ Mawr. <i>DM: a resident is continuing to feed the cats near Tŷ Mawr.</i>	Cyngor: mae angen tystiolaeth ffotograffig/fideo er mwyn gallu gweithredu. <i>Council: photographic/video evidence is required in order to take action.</i>
04	Jamie (Jumpers for goalposts): gofyn caniatâd i ddefnyddio'r cae chwarae yng Nghae Ceredig eto eleni. <i>Jamie (Jumpers for goalposts): requests permission to make use of the playing field in Cae Ceredig again this year.</i>	Cyngor: cytuno i ddefnydd o'r cae cyn belled â bod copi o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn cael ei ddarparu. <i>Council: agreed to use of field as long as copy of public liability insurance provided.</i>

Cyfarfod nesaf ar 05 Mawrth 2025 am 19:30 yn Neuadd Eglwys Llanddeiniol.

Next meeting on 05 March 2025 at 19:30 in Llanddeiniol Church Hall.

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / *Correspondence welcomed in Welsh and English.*

Llofnod y cadeirydd / *Chairpersons signature:*

 Dyddiad / *Date:* 7/5/2025